Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Sicrhau gwaith rheoleiddio effeithlon ar gyfer defnyddwyr ynni

**Taflen ffeithiau 99** 30.03.11 www.ofgem.gov.uk

**Mae cadw costau rheoleiddio mor isel â phosibl wedi bod yn flaenoriaeth i Ofgem. Mae hyn wedi arwain at ailstrwythuro gwaith y rheoleiddiwr yn ddau fusnes, sef Ofgem ac Ofgem E-Serve, fel y gall barhau i ddiogelu buddiannau defnyddwyr ynni a darparu rhaglenni amgylcheddol y Llywodraeth yn fwy effeithlon er mwyn helpu i sicrhau economi carbon isel.**

**Mae Ofgem E-Serve yn rhedeg rhaglenni amgylcheddol, megis y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, ar gyfer y Llywodraeth, tra bod Ofgem yn parhau i reoleiddio'r diwydiant.**

## Sut y caiff Ofgem ei ariannu?

Caiff Ofgem ei ariannu gan ffi trwydded a godir ar y diwydiant ynni, ac nid gan drethdalwyr. Ni ddefnyddir y **£31 miliwn** o ddirwyon y mae wedi'u gosod ar y diwydiant ers 2002 i ariannu Ofgem, ond caiff ei dalu'n uniongyrchol i'r Trysorlys.

Caiff costau gweinyddu rhaglenni amgylcheddol Ofgem E-Serve eu talu o amrywiaeth o ffynonellau. Ariennir tua hanner y costau gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC). Ariennir yr hanner arall gan y rhaglenni eu hunain.

## Lleihau costau

Ofgem oedd y rheoleiddiwr cyntaf i ymrwymo ei hun i'r un gyfundrefn rheoli prisiau RPI-X pum mlynedd lem ag y mae'n ei gorfodi ar y cwmnïau y mae'n eu rheoleiddio. Mae cyfundrefn rheoli costau Ofgem wedi'i gosod ar RPI-3, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo leihau ei gostau dri y cant bob blwyddyn mewn termau real.

Pennir y gyfundrefn rheoli costau gan bwyllgor archwilio Ofgem ac fe'i goruchwylir gan gwmni cyfrifyddu annibynnol.

Mae Ofgem hefyd yn helpu rheoleiddwyr eraill i gadw eu costau i lawr drwy ddarparu gwasanaethau cyllid i PostComm a thrwy weinyddu agweddau ar y rhaglen ynni adnewyddadwy ar gyfer rheoleiddiwr Gogledd Iwerddon.


## Perfformiad Ofgem o ran rheoli costau

Mae cyfundrefn rheoli costau RPI-3 Ofgem, a mesurau eraill wedi arwain at gyfanswm o £11.9 miliwn o arbedion dros bum mlynedd (2005-2010). Mae Ofgem wedi rhagori ar ei gyfundrefn rheoli costau bob blwyddyn. Bydd cyfundrefn rheoli prisiau nesaf Ofgem ar gyfer 2010-2015 yn cadw'r toriad llym blynyddol o dri y cant gydag arbedion arfaethedig o £12.5 miliwn. Mewn adolygiad o berfformiad ariannol Ofgem, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010, noda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod gan Ofgem systemau rheoli ac adrodd ariannol cadarn.

Bydd Ofgem yn gwneud arbedion sylweddol yn 2010-11 yn erbyn y gyllideb. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy weithredu cyfundrefn rheoli costau cadarn ym mhob adran, gweithredu rhaglenni effeithlonrwydd yn ogystal â mesurau cynileb y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys rhewi cyflogau a chyfyngu ar weithgarwch recriwtio a'r defnydd o ymgynghorwyr. Mae rhaglenni pwysig megis y cam llunio polisi ar gyfer cyflwyno mesuryddion deallus a'r broses dendro gystadleuol ar gyfer cysylltiadau trosglwyddo ar y môr wedi'u cyflawni ar gost sylweddol is na'r hyn a gynlluniwyd.

Ar gyfer ei gyllideb yn 2011-12 a thu hwnt, mae Ofgem yn wynebu ansicrwydd sylweddol. Mae hyn oherwydd y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr yn dilyn canlyniadau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu, a'r disgwyliad y bydd angen gwneud gwaith o ganlyniad i adolygiad DECC o'r farchnad drydan er mwyn sicrhau cyflenwadau diogel parhaus.

Ffig 1: Arbedion blynyddol




## Darparu rhaglenni amgylcheddol y Llywodraeth yn effeithlon


Mae Ofgem E-Serve yn gweinyddu cynlluniau amgylcheddol ym mhob achos am lai nag 1% o gost y rhaglen, ac ar gyfartaledd am 0.22% o werth y cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na meincnodau ar gyfer rhaglenni eraill y llywodraeth.

Mae Ofgem E-Serve yn gallu darparu tua **£5 biliwn** o gynlluniau amgylcheddol am **£11 miliwn** yn unig oherwydd:

- mae ei gyfundrefn rheoli costau yn sicrhau bod costau'n aros yn isel
- mae ganddo'r arbenigedd a'r profiad o ddatblygu gweinyddiaeth gadarn ac effeithiol ar gyfer rhaglenni amgylcheddol
- nid yw Ofgem yn codi ffi am weinyddu'r cynlluniau hyn. Dim ond ar gyfer ei gostau rhedeg y mae'n codi ffi ac nid yw'n ceisio gwneud elw.

Mae Ofgem wedi ehangu ei waith darparu'n gyflym am fod angen mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar fwy o frys. Yn 2001-02, gwnaeth Ofgem weinyddu rhaglenni amgylcheddol gwerth **£150 miliwn** y flwyddyn ar sail ddi-elw gyda 12 aelod o staff - nawr mae gwerth y rhaglenni wedi codi i **£5 biliwn** y flwyddyn ac mae nifer y staff wedi codi i 96.

Ffig 2: Costau Ofgem




Ffigurau net yw'r ffigurau hyn

Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei ehangu ymhellach am fod y Llywodraeth wedi gofyn i Ofgem E-Serve redeg y cynlluniau newydd canlynol:

- Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI)
- Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae cynlluniau sy'n bodoli eisoes fel y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn cael eu hehangu i ddarparu mwy o arian ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y môr, ac i adlewyrchu newidiadau er enghraifft yn y defnydd o fiohylifau.

## Darparu prosiectau

Mae a wnelo rheoleiddio effeithlon â mwy na chadw costau mor isel â phosibl - mae a wnelo hefyd â darparu prosiectau a pholisïau sydd wedi'u rheoli'n dda. Mae Ofgem wedi darparu'n gyson y prosiectau a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol (ffigur 3). Er enghraifft, mae Ofgem wedi darparu prosiectau polisi allweddol gan gynnwys y canlynol:

- Yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu

  Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn ar 21 Mawrth. Canfu Ofgem fod angen newid y farchnad mewn ffordd radical er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr, cael gwared ar dariffau sy'n peri dryswch a llacio gafael y Chwe Chyflenwr Mawr ar y farchnad. Mae'r diwygiadau allweddol y mae Ofgem yn ymgynghori arnynt yn cynnwys cyfyngu nifer y tariffau ar gyfer cynhyrchion gwyrdd safonol gan bob cyflenwr i ddim ond un ar gyfer pob dull talu mewn perthynas â chwsmeriaid domestig. Hefyd bydd gofyn i'r chwe chwmni mawr arwerthu hyd at 20 y cant o'u hallbwn pŵeru.

- Project Discovery


  Gwnaeth yr ymchwiliad hwn ystyried a allai marchnad ynni bresennol Prydain ddarparu cyflenwadau ynni cynaliadwy a diogel am bris fforddiadwy i ddefnyddwyr. Daeth i'r casgliad bod maint y buddsoddiad y byddai ei angen dros y 10 mlynedd nesaf - **£200 biliw**n - mor fawr fel bod amheuaeth resymol ynghylch p'un a fyddai'r trefniadau presennol yn gallu darparu cyflenwadau diogel. Cynigiodd opsiynau ar gyfer diwygio i'r Llywodraeth eu hystyried

- RIIO

  Mae Ofgem hefyd wedi sefydlu fframwaith newydd ar gyfer pennu rheolaethau prisiau fel y gall y cwmnïau rhwydwaith addasu i'r her fawr o ddarparu dros **£30 biliwn** o'r **£200 biliwn** o fuddsoddiad sydd ei angen yn y sector ynni ym Mhrydain yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

  Mae'r fframwaith RIIO (Refeniw=Cymhellion+ Arloesedd+Allbynnau) yn disodli'r fformiwla RPI-X blaenorol. O dan RIIO, bydd y cwmnïau rhwydwaith yn wynebu cymhellion a chosbau sylweddol er mwyn ysgogi mwy o effeithlonrwydd wrth ddarparu buddsoddiad yn y rhwydwaith. Bydd cwmnïau llwyddiannus sy'n perfformio'n dda ar gyfer cwsmeriaid yn cael eu gwobrwyo. Bydd unrhyw gwmnïau nad ydynt yn gwneud hynny yn cael eu cosbi

Ffig 3: Cyflawniadau'r cynllun corfforaethol




## Astudiaeth Achos: Darparu rhaglenni amgylcheddol arloesol

Mae Ofgem hefyd wedi defnyddio dull arloesol o helpu'r llywodraeth i gyflawni ei thargedau amgylcheddol. Er enghraifft, er mwyn cyflawni targedau amgylcheddol 2020 Prydain, mae'r Llywodraeth am weld 40GW o ynni gwynt yn cael ei gynhyrchu ar y môr. Amcangyfrifir y bydd yn costio tua **£15 biliwn** i osod ceblau foltedd uchel er mwyn cysylltu cymaint â hyn o gynhyrchiant â'r tir mawr.

Mae Ofgem a DECC wedi rhoi cynllun ar waith lle mae cwmnïau yn cystadlu i adeiladu a rhedeg y cysylltiadau trosglwyddo hanfodol hyn. Mae Ofgem yn rhedeg tendrau er mwyn denu buddsoddiad ar gyfer y cysylltiadau hyn, a gwnaeth y tendr cyntaf ddenu tua **£4 biliwn** o dendrau ar gyfer tua £1 biliwn o asedau. Amcangyfrifir bod y dull cystadleuol hwn yn arbed tua **£350 miliwn** i ddefnyddwyr yn y cylch tendro cyntaf yn unig. Mae'r model tendr cystadleuol wedi denu dros **£300 miliwn** o arian gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Mark Wiltsher, Pennaeth Cyfryngau a Marchnata** | 020 7901 7006 | e-bost mark.wiltsher@ofgem.gov.uk |
| **Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** | 020 7901 7225 | e-bost chris.lock@ofgem.gov.uk |
| **Alison Wright, Swyddog y Wasg** | 020 7901 7217 | e-bost alison.wright@ofgem.gov.uk |